| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **25 Mawrth 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Huw Jones, Aelod Arweiniol dros Dwristiaeth, Ieuenctid a Hamdden**<br><br>**Jamie Groves, Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rhian Roberts, Swyddog Arweiniol dros Hamdden Strategol** |
| **Teitl:** | **Digwyddiad Beicio Wiggle Etape Cymru 2014** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Rhoi'r newyddion diweddaraf i'r aelodau am y digwyddiad beicio caeedig Etape Cymru sydd i fod i ddigwydd yn y sir ar ddydd Sul 14 Medi 2014, wythnos yn ddiweddarach na'r llynedd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mynegodd yr Arweinydd ac aelodau lleol rai pryderon am y digwyddiad a gynhaliwyd yn 2013 ac roedd eisiau sicrwydd bod y rhain wedi cael sylw eu datrys cyn gwneud penderfyniad ar y llwybr newydd arfaethedig a Gorchmynion Cau Ffyrdd. Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth i'r aelodau Cabinet am y llwybr, cyfathrebu â'r trefnwyr digwyddiadau a'r ffyrdd y bwriedir eu cau

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cabinet yn nodi'r trefniadau a roddwyd ar waith i fynd i'r afael â phryderon y gymuned a'r aelodau, a bod y Cabinet yn cytuno cau'r ffordd a chymeradwyo'r digwyddiad

## 4. Manylion yr adroddiad.

4.1 Mae Etape Cymru yn sialens feicio gaeedig fawr sy'n dechrau ym Mangor Is-coed yn Sir Wrecsam. Mae'r ras 88 milltir yn dechrau ac yn gorffen ym Mangor Is-coed, ond yn fuan yn cyrraedd Sir Ddinbych, gyda golygfeydd godidog o amgylch Dyffryn Dyfrdwy, Bwlch yr Oernant ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd.

4.2 Mae trefnwyr y digwyddiad wedi bod yn hapus iawn gyda llwyddiant y digwyddiad hyd yn hyn ac yn awyddus i ddychwelyd i'r rhanbarth am y bedwaredd flwyddyn yn olynol yn 2014.

4.3 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu templed ar gyfer trefnwyr y digwyddiad i'w ddefnyddio i gasglu effaith economaidd y digwyddiad, gan gynnwys gwariant ymwelwyr, y contractwyr a ddefnyddir ac ati. Yn ôl y templed hwn, dywed trefnwyr y digwyddiad bod y rhanbarth wedi elwa'n economaidd o gynnal y digwyddiad yn 2013 a bod y cyfanswm gwariant amcangyfrifedig yn y rhanbarth dros y penwythnos tua £500,000.

4.4 O'r 2007 o ymgeiswyr i'r digwyddiad roedd 80% yn dod o du allan i Ogledd Cymru, roedd 92.7% o'r cyfranogwyr wedi eu hysbrydoli i ddychwelyd i ranbarthau Gogledd Cymru ar gyfer gwaith neu bleser. Ar gyfartaledd, daeth pob cyfranogwr â 1.7 o ffrindiau neu deulu am gefnogaeth ac aros am 2 noson yn y rhanbarth.

4.5 Caiff y digwyddiad ei hun ei reoli gan Human Race, sydd â phrofiad mewn digwyddiadau rhedeg o'r natur hon ar draws y DU. Er nad yw'r Cyngor yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cynllunio, mae trefnwyr y digwyddiad wedi pwysleisio na fyddai'r digwyddiad yn debygol o fynd yn ei flaen heb gefnogaeth Cynghorau Sir Ddinbych a Wrecsam.

4.6 Y brif rôl ar gyfer Sir Ddinbych yw hwyluso trafodaethau ynghylch priffyrdd, materion diogelwch a chyfathrebu gyda'r wasg a chymunedau lleol.

4.7 Mae'r Cyngor yn ymwybodol y bu pryderon ynghylch rhai agweddau o'r ras ac mae'r trefnwyr yn delio â'r materion hynny. Mae crynodeb ar gael yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

4.8 Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi parhau â'i gyfathrebu rheolaidd gyda Human Race, trefnwyr Etape Cymru, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, mewn perthynas â digwyddiad beicio 'ffyrdd caeedig' 2013 a gynhaliwyd ddydd Sul 8 Medi, 2013 ac mae cynlluniau ar y gweill yn awr ar gyfer digwyddiad 2014 i'w gynnal ddydd Sul 14 Medi 2014, wythnos yn ddiweddarach na'r llynedd i gymryd i ystyriaeth rai pryderon a godwyd.

4.9 Mae trefnwyr, swyddogion y Cyngor ac Aelod Arweiniol y Cabinet dros Dwristiaeth, Ieuenctid a Hamdden wedi cyfarfod i adolygu llwybrau amgen ar gyfer digwyddiad eleni a chytunwyd y dylai Llwybr 5 gael ei gynnig fel y llwybr mwyaf priodol mewn ymateb i adborth ein cymunedau ac osgoi problemau tebyg i rai 2013.

4.10 Trefnodd y Cyngor a Human Race sesiwn galw heibio a grŵp ffocws cyn digwyddiad y llynedd mewn ymateb i breswylwyr eisiau rhagor o wybodaeth. Daeth trigolion a oedd yn byw ar hyd y llwybr i drafod eu pryderon am y llwybr a phroblemau mynediad posibl yn ystod y digwyddiad. Trefnodd trefnwyr y digwyddiad ar gyfer dulliau amgen i breswylwyr adael eu heiddo gyda chymorth modur yn eu hebrwng allan, roedd hyn yn berthnasol i fusnesau gael staff i'w heiddo.

4.11 Cynhaliwyd grŵp ffocws arall ar ôl y digwyddiad gyda'r Cyngor, trigolion, Cynghorau Tref, busnesau a Human Race. Mynegwyd problemau gyda'r llwybr efo'r trefnwyr a rhoddwyd sicrwydd y buasent yn edrych ar hyn ac unwaith y cytunwyd ar lwybr arall i'w ddwyn ymlaen, yna byddai grŵp ffocws bach yn cyfarfod i drafod y llwybr

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae Sir Ddinbych yn gyrchfan o safon ar gyfer beicio, sydd hyd yma heb ei darganfod fawr, ac mae ganddi gyfle gwych i elwa'n economaidd o'r twf a welwyd yn y sector twristiaeth gweithgareddau. Mae adfywio yn un o flaenoriaethau corfforaethol y cyngor.

5.2 Yn ddiweddar mae rhannau sylweddol o Sir Ddinbych wedi eu dynodi'n Ganolfan Rhagoriaeth Beicio Gogledd Cymru, gyda'r nod o greu ardal sy'n cael ei chydnabod yn genedlaethol fel cyrchfan ragorol trwy'r flwyddyn ar gyfer beicio ar y ffordd ac oddi ar y ffordd.

5.3 Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo i'r Strategaeth Hamdden, a dau o'i amcanion yw gweithio mewn partneriaeth i gynllunio a darparu cyfleoedd hamdden a chael mynediad i leoliad o ansawdd uchel. Mae'r bartneriaeth hon yn dangos y gefnogaeth o weithio gyda sefydliadau i wneud y defnydd gorau o adnoddau i gynllunio, darparu a hyrwyddo cyfleoedd hamdden.

5.4 Mae Cyngor Sir Ddinbych hefyd wedi ymrwymo i Strategaeth Twristiaeth ar gyfer Gogledd Cymru, sydd â'i Chynllun Gweithredu yn cynnwys datblygu digwyddiadau mawr ac atyniadau a gweithgareddau yn yr awyr agored.

5.5 Mae'r digwyddiad hefyd yn cefnogi Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol y cyngor, gyda thema 6: Sir Ddinbych wedi'i hyrwyddo'n dda, yn cynnwys bod Sir Ddinbych yn cael ei chydnabod fel lle gwych i ymweld ag o ac yn chwarae rôl allweddol wrth wneud Gogledd Cymru yn gyrchfan i ymwelwyr ym 5 uchaf y DU.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid yw Cyngor Sir Ddinbych wedi gwneud unrhyw gyfraniad ariannol i'r digwyddiad.

6.2 Amser staff a ddarperir gan yr Adran Briffyrdd, Adfywio, Marchnata Cyrchfan a Chyfathrebu a'r prosiect Canolfan Rhagoriaeth Beicio i gefnogi cynllunio'r digwyddiad gan y trefnwyr

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid atodi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fel atodiad i'r adroddiad hwn.**

Ni fydd y prosiect yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn grwpiau a warchodir.

EqIA ynghlwm.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 7 Hydref 13 – Cyfarfu swyddogion Cyngor Sir Ddinbych, y Pennaeth Gwasanaeth, Jamie Groves, Yr Arweinydd a'r Aelod Arweiniol ar gyfer Twristiaeth, Hamdden ac Ieuenctid â'r trefnwyr i drafod pryderon o ddigwyddiad 2013 a gofyn am ddatganiad o fwriad gan y trefnwyr ar gyfer y Cyngor.

8.2 23 Hydref 13 - Cynhaliwyd grŵp ffocws, ar ôl y digwyddiad, rhwng trigolion a'r trefnwyr, gyda swyddogion Cyngor Sir Ddinbych yn hwyluso i drafod materion a godwyd a chwilio am ffordd ymlaen i leddfu rhai o'r materion a godwyd.

8.3 Mae ymgynghori ac ymgysylltu eisoes yn digwydd gyda'r adrannau canlynol: Priffyrdd, Cynllunio Rhag Argyfwng, Marchnata Cyrchfan a chyfathrebu a'r Aelod Arweiniol ar gyfer Twristiaeth, Hamdden ac Ieuenctid.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd yn rhaid i unrhyw gostau y daw'r Cyngor ar eu traws gael eu cynnwys o fewn cyllidebau refeniw adrannol presennol.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae nifer o risgiau / pryderon wedi cael eu nodi gan yr Arweinydd. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1, ynghyd â rhai cynlluniau adfer sy'n cael eu rhoi ar waith er mwyn lliniaru'r risgiau wrth symud ymlaen gan Human Race

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

O dan Adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (ar gyfer hyrwyddo gwella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylchedd ardal yr awdurdod lleol.